Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University

| POLISI RHEOLI DYFEISIAU A CHYFRYNGAU STORIO DATA ELECTRONIG CLUDADWY | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Gwasanaethau TGCh | | |
| **Awdur** | Ymgynghorydd Gwasanaethau Cyfreithiol | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | |
| **I'w weithredu gan:** | Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau TGCh | | |
| **Cyfeirnod y Polisi:** | POIT1718008 | | |
| **Y Polisi a Ddisodlir:** | POIT1617007 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd yr Is-ganghellor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 17.04.18 | **Rhif y Cofnod:** | 17.96.07 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Mai 18 |
| **Cyfnod Cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu** | Mai 21 |
| Rwyf wedi gwneud asesiad sgrinio effeithiau ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. | | | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn *(dilëwch fel sy'n briodol)* ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol. | | | ✓ |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r polisi ar gyfer sicrhau bod data cyfrinachol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol a gedwir ar ddyfeisiau cludadwy a chyfryngau storio, neu sy'n cael ei gyrchu trwy eu defnyddio, yn cael ei storio a'i reoli'n ddiogel. Diben y ddogfen hon yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel rhag defnydd digroeso a'i diogelu rhag colled a/neu beidio â bod ar gael i'w defnyddio.

## Llywodraethiant

Y Cyfarwyddwr Cyswllt TGCh sydd â'r cyfrifoldeb am arolygu gweithrediad y polisi hwn a chydymffurfiad â'r polisi hwn

## Diffiniadau

**Dyfais Gludadwy**: Offer cyfrifiadurol llaw ac offer llaw-gludadwy arall a ddefnyddir i gael mynediad at ddata'r Brifysgol, ei storio neu ei brosesu, gan gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) gliniaduron, tabledi, ffonau symudol a chynorthwywyr digidol personol.

**Cyfryngau Cludadwy**: Eitemau sy'n rhwydd i'w cludo a ddefnyddir i storio data ar ffurf electronig (boed dros dro neu'n hirdymor), gan gynnwys ffyn data ("gyriannau fflach"), disgiau hyblyg, disgiau cryno (CDs a DVDs), gyriannau allanol a chwaraewyr cyfryngau (chwaraewyr mp3) ategol.

**Data Cyfrinachol**: Gwybodaeth ynghylch neu'n gysylltiedig â busnes y Brifysgol (gan gynnwys Data Personol a Data Personol Sensitif, fel y diffinnir nhw isod) y mae'r defnyddiwr dan rwymedigaeth i'w thrin yn gyfrinachol a'i diogelu rhag defnydd, mynediad neu gyhoeddiad heb awdurdod.

**Data Personol**: Mae hyn yn golygu unrhyw wybodaeth ynghylch unrhyw unigolion byw, adnabyddadwy.

**Data Personol Sensitif**: Is-set o Ddata Personol. Mae'n golygu gwybodaeth bersonol ynghylch tarddiad hiliol neu ethnig unigolyn; ei safbwyntiau gwleidyddol; credoau crefyddol; aelodaeth o undebau llafur; iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol; cyflawni neu honiad o gyflawni unrhyw drosedd gan yr unigolyn; unrhyw achosion mewn perthynas â chyflawni neu honiad o gyflawni unrhyw drosedd gan yr unigolyn, canlyniad achosion o'r fath neu ddedfryd unrhyw lys mewn achosion o'r fath.

**Defnyddiwr**: Aelod o staff PGW neu unrhyw unigolyn arall sy'n defnyddio dyfais gludadwy neu gyfryngau cludadwy gydag awdurdod, i storio, cyrchu neu drin Data Cyfrinachol

**Polisi**

**1. Dyletswydd gyffredinol i ddiogelu data**

1.1 Mae holl gyflogeion PGW a'r rheiny sy'n gweithio neu'n gweithredu drwy drefniant ffurfiol ar ran y Brifysgol dan rwymedigaeth gytundebol i gymryd camau digonol i atal Data Cyfrinachol rhag cael ei ddefnyddio neu ei ddatgelu heb awdurdod a rhaid iddynt gymryd gofal rhesymol i ddiogelu'r ddyfais gludadwy neu gyfrwng cludadwy rhag cael ei golli neu ei ddwyn.

1.2 Yn ogystal, mae diogelu Data Personol yn rhwymedigaeth gyfreithiol a osodir gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data. Gall torri'r rhwymedigaeth honno ddod â chosbau ariannol sylweddol a chosbau eraill i'r rheiny sy'n gyfrifol. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn gofyn i gamau digonol gael eu cymryd i ddiogelu Data Personol, a disgwylir bod hyd yn oed mwy o ofal yn cael ei roi i ddiogelu Data Personol Sensitif oherwydd ei natur breifat.

1.3 Ni ddylid storio Data Personol Sensitif ar ddyfais gludadwy na chyfrwng cludadwy ac eithrio fel y nodir yn adran 2.3.

1.4 Gall torri'r Polisi hwn arwain at gamau disgyblu difrifol gan ddefnyddio gweithdrefn ddisgyblu'r Brifysgol, waeth beth fo'r cosbau neu sancsiynau a osodir gan y Comisiynydd Gwybodaeth yng nghyswllt unrhyw fethiant i ddiogelu data personol neu ddata personol sensitif.

**2. Lleihau cymaint â phosib ar drosglwyddo Data Cyfrinachol i ddyfeisiau a chyfryngau cludadwy**

2.1 Fel egwyddor gyffredinol, dylid cadw Data Cyfrinachol yn ddiogel ar systemau craidd y Brifysgol, dylid cael mynediad ato a'i reoli gan ddefnyddio'r systemau hynny yn unig, ac ni ddylid ei lawrlwytho i'w storio neu ei drin o bell ar ddyfeisiau neu gyfryngau cludadwy.

2.2 Lle bynnag y bo ar gael, rhaid defnyddio gweithdrefnau trawsyrru ffeiliau ar-lein, diogel yn hytrach na chyfryngau cludadwy i anfon Data Personol yn uniongyrchol at dderbynyddion allanol awdurdodedig.

2.3 Mewn achos pan ddaw'n hanfodol i osod data cyfrinachol ar ddyfais gludadwy neu gyfryngau cludadwy neu os yr unig opsiwn dichonadwy ar gyfer trosglwyddo data yw defnyddio cyfryngau cludadwy, rhaid i'r gwasanaeth TGCh gymeradwyo'r ddyfais (bydd TGCh yn sicrhau bod y ddyfais gludadwy neu'r cyfryngau cludadwy yn bodloni

lleiafswm y meini prawf diogelu a nodir yn Adran 3 isod). Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, nid oes angen rhagor o gymeradwyaeth i gopïo i'r ddyfais. Fodd bynnag, rhaid cadw'r ddyfais gludadwy neu'r cyfrwng cludadwy yn ddiogel a'u dychwelyd i TGCh wedi i chi drosglwyddo eich data, i sicrhau bod y data ar y ddyfais benodol honno yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn unol ag Adran 5c – Gwaredu Data ym Mholisi Diogelu Data a Gwaredu Data y Brifysgol.

2.4 Rhaid dileu data a gopiir i ddyfeisiau neu gyfryngau cludadwy ar y cyfle cyntaf.

2.5 Ni ddylid storio Data Personol mewn ffurf heb ei ddiogelu ar ddyfeisiau neu gyfryngau cludadwy.

**3. Lleiafswm y Meini Prawf Diogelwch**

3.1 Rhaid i ddyfeisiau neu gyfryngau cludadwy a ddefnyddir i gael mynediad at Ddata Cyfrinachol neu i'w storio fodloni lleiafswm y gofynion diogelwch a nodir yn y tabl isod.

3.2 Mae'r gofynion hyn yn berthnasol waeth pwy sy'n berchen ar yr offer neu'r cyfryngau dan sylw; h.y. yr unig adeg y gellir defnyddio dyfais gludadwy nad yw'n eiddo i PGW nac wedi'i chyflenwi gan PGW i gael mynediad at Ddata Cyfrinachol neu i'w storio yw pan fo'r defnydd o'r ddyfais wedi'i gymeradwyo gan TGCh a'i bod yn bodloni'r gofynion diogelwch a ddisgrifir yn y tabl isod.

| **MATH O DDYFAIS NEU GYFRWNG** | **GOFYNIAD DIOGELWCH** |
|---|---|
| Gliniadur, tabled neu gyfatebol | Rhaid i'r ddyfais ddefnyddio amgryptiad disg cyflawn |
| Ffôn symudol | Cyfrinair/pin wrth droi'r pŵer ymlaen; terfyn amser awtomatig yn cloi'r bysellfwrdd; amgryptiad os yw ar gael |
| Cof bach USB/gyriannau fflach USB | Rhaid i USB ddefnyddio amgryptiad ar sail caledwedd gyda meddalwedd i osod a rheoli'r cyfrinymadrodd i ddefnyddio'r ddyfais |
| CD/DVD/gyriannau caled allanol neu gardiau cof | Rhaid amgryptio'r data cyn ei storio |
| Disg hyblyg | Rhaid amgryptio'r data cyn ei storio |
| Tâp/microfiche | Tapiau neu microfiche i'w storio ar y safle mewn sêff gwrthdan gyda mynediad cyfyngedig |

| | |
|---|---|
| Dyfeisiau eraill sy'n caniatáu storio ffeiliau e.e. IPad, IPod, chwaraewyr MP3 | Ni ddylid defnyddio'r dyfeisiau hyn oni bai eu bod yn gallu storio'n ddiogel wrth gael eu symud. Nid yw IPods na chwaraewyr MP3 yn cynnig yr amddiffyniad hwn felly ni ddylid eu defnyddio. Cysylltwch â'r ddesg gwasanaethau TGCh ynghylch dyfeisiau penodol. |
| Dyfeisiau â mynediad i bobl anabl sy'n cynnwys storfa<br><br>Cynorthwyydd Digidol Personol neu ddyfeisiau recordio | Ni ddylid defnyddio'r dyfeisiau hyn oni bai eu bod yn gallu storio'n ddiogel wrth gael eu symud. Cysylltwch â'r ddesg gwasanaethau TGCh a fydd yn darparu cyngor ar y dyfeisiau hyn<br><br>Ni ddylid defnyddio'r dyfeisiau hyn oni bai eu bod yn ddiogel. Nid yw cynorthwywyr digidol personol na gwasanaethau recordio yn cynnig yr amddiffyniad hwn ac felly ni ddylid eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddata personol. Cysylltwch â'r ddesg gwasanaethau TGCh ynghylch dyfeisiau penodol |

Lle bo angen cyfrinair/cyfrinymadrodd neu PIN i ddatgloi'r ddyfais, rhaid i'r unigolyn ei amddiffyn ac NI ddylid ei rannu na'i roi i unrhyw un arall. Gall rhannu neu roi eich cyfrinair i rywun arall, gan roi mynediad iddynt at ddata personol sensitif, arwain at gamau disgyblu.

**4 Y camau i'w cymryd os bydd Data Cyfrinachol yn cael ei golli neu os bydd amheuaeth ei fod wedi'i golli**

4.1 Rhaid i'r defnyddiwr roi gwybod **ar unwaith** i'r Cyfarwyddwr TGCh, y Swyddog Diogelu Data a'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth am achos o unrhyw un o'r canlynol, a chydymffurfio â gorchmynion neu gyfarwyddyd rhesymol gan TGCh i leihau unrhyw risg dilynol:

4.1.1 Dyfais gludadwy yr oedd Data Cyfrinachol wedi'i storio arni neu yr oedd modd cael mynediad at Ddata Cyfrinachol arni yn cael ei dwyn neu ei cholli;

4.1.2 Cyfryngau cludadwy sy'n cynnwys Data Cyfrinachol yn cael eu dwyn neu eu colli, gan gynnwys cyfryngau a anfonwyd at dderbynnydd allanol sydd heb gyrraedd pen eu taith;

4.1.3 Defnyddio dyfais gludadwy'r defnyddiwr i gael mynediad anawdurdodedig at Ddata Cyfrinachol neu amheuaeth o hynny;

4.1.4 Unrhyw ddigwyddiad arall sy'n cynnwys dyfais gludadwy neu gyfrwng cludadwy dan reolaeth y defnyddiwr sy'n golygu bod perygl gwirioneddol neu bosib i ddiogelwch Data Cyfrinachol.

Dogfennau a deunyddiau ategol eraill

- Polisi Rheoli Asedau TG
- Polisi Diogelwch TG
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Diogelu Data a Gwaredu Data
- Cyfarwyddyd ar Gynorthwywyr Digidol Personol ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: http://www.ico.gov.uk

**5. Perchennog y Broses**

Y Cyfarwyddwr Cyswllt TGCh sy'n gyfrifol am ddatblygiad, monitro cydymffurfiaeth ac adolygu'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.